HM Government

# Y Tîm Help Windrush

## Yma i'ch cefnogi chi a'ch teulu



**Os daethoch chi neu eich rhieni i'r Deyrnas Unedig o unrhyw un o wledydd y Gymanwlad cyn 1973, neu os daethoch chi i'r Deyrnas Unedig o unrhyw wlad cyn diwedd 1988, yna fe allwn ni eich helpu i gael dogfennau i ddangos eich statws cyfreithiol. Gallwn hefyd eich helpu i gael yr iawndal y mae gennych hawl iddo.**



## Pwyl all gael help?

Efallai y gallwch gael help os ydych yn ddryslyd neu yn ansicr am eich statws cyfreithiol yn y Deyrnas Unedig. Efallai y gallwch gael help hefyd os ydych wedi dioddef colledion oherwydd na allech brofi eich statws cyfreithiol. Mae hyn yn wir:

- os daethoch chi neu eich rhieni i'r Deyrnas Unedig o unrhyw un o wledydd y Gymanwlad cyn 1973
- os daethoch chi i'r Deyrnas Unedig o unrhyw wlad cyn diwedd 1988
- efallai y bydd rhai wyrion ac aelodau agos o'r teulu hefyd yn gallu hawlio iawndal.

## Sut allwch chi gael dogfennau i ddangos eich hawl i fyw yn y Deyrnas Unedig?

Nid oes gan rai pobl a wnaeth ymsefydlu yn gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig flynyddoedd yn ôl y dogfennau i ddangos eu hawl cyfreithiol i fyw a gweithio yma. Mae Tîm Help Windrush y llywodraeth yn cefnogi pobl i gael y dogfennau yma am ddim.

## Am beth y gallwch chi hawlio iawndal?

Mae'r Tîm Help Windrush hefyd yn helpu pobl i hawlio iawndal. Os ydych chi wedi methu cael pethau fel swyddi a gofal iechyd oherwydd na allech chi brofi eich hawl i fyw yn y Deyrnas Unedig, efallai y gallwch chi hawlio iawndal.

Efallai y gallwch hawlio iawndal os gwnaethoch chi:

- fethu cael gwaith, tai, gofal iechyd, addysg, bancio, budd-daliadau neu fethu gyrru
- orfod talu costau oherwydd cais mewnfudo aflwyddiannus
- gael eich cadw'n gaeth, eich alltudio neu symud o'r wlad, neu os effeithiwyd ar eich bywyd bob dydd

# Enghreifftiau o bobl sydd wedi cael cymorth gan y Cynllun Windrush

## Christopher

Daeth tad Christopher i'r Deyrnas Unedig o Grenada ym 1970. Daeth Christopher i'r Deyrnas Unedig gyda'i fam pan oedd yn wyth oed. Mae wedi byw yn y Deyrnas Unedig byth ers hynny. Bu tad a mam Christopher farw flynyddoedd lawer yn ôl. Mae Christopher yn gweithio i'r GIG. Gofynnodd Christopher i'r Cynllun Windrush am help i gael dinasyddiaeth Brydeinig.

Ni allai gofio rhai manylion am ei rieni, fel pryd y daethon nhw i'r Deyrnas Unedig a beth oedd eu statws. Chwiliodd y Cynllun Windrush am wybodaeth am Christopher a'i rieni, fel y gallai brofi bod ganddo hawl i fyw yn y Deyrnas Unedig. Fe ddaethant o hyd i gofnodion gan y llywodraeth oedd yn dangos bod rhieni Christopher wedi byw yn y Deyrnas Unedig ers iddyn nhw gyrraedd, a bod ei dad yn gweithio yma cyn 1973. Roedd hynny'n dangos bod ei dad wedi ymsefydlu cyn 1 Ionawr 1973.

**Rhoddwyd dinasyddiaeth Brydeinig i Christopher.**

## Patricia

Daeth Patricia i'r Deyrnas Unedig o Jamaica gyda'i rhieni ym 1963 pan oedd yn bump oed. Mae wedi byw yn y Deyrnas Unedig byth ers hynny. Nid oedd ganddi unrhyw beth i brofi ei bod yn cael byw yn y Deyrnas Unedig.

Cysylltodd Patricia â'r Cynllun Windrush. Fe wnaethant esbonio sut i ymgeisio. Fe wnaethant ei helpu trwy chwilio am brawf o'i statws a'r ffaith ei bod wedi preswylio yma ers amser maith yng nghofnodion y llywodraeth.

**Rhoddwyd dinasyddiaeth Brydeinig iddi am ddim heb orfod cymryd unrhyw brofion pellach.**

## Sandeep

Daeth Sandeep i'r Deyrnas Unedig o India ac ymsefydlu yma yn 1970 yn 20 oed. Sefydlodd fusnes yn y Deyrnas Unedig. Yn 2008 aeth yn ôl i India i ofalu am ei rieni oedrannus. Cadwodd ei fusnes i fynd yn y Deyrnas Unedig. Roedd ei ddau blentyn a'u teuluoedd yn dal i fyw yma ac roedd yn ymweld â'r Deyrnas Unedig yn gyson.

Pan fu rhieni Sandeep farw yn yr India, roedd am ddod yn ôl i'r Deyrnas Unedig i fyw. Cafodd fisa ymweld chwe mis, a chysylltodd â'r Cynllun Windrush i ofyn am help wrth gyrraedd.

**Rhoddwyd 'hawl amhenodol i aros' i Sandeep oherwydd ei gysylltiadau cryf â'r Deyrnas Unedig.**

## Yvonne

Mae Yvonne yn 75 oed ac fe gyrhaeddodd yn 1966 gyda'i gŵr. Mae ganddynt ddau o blant a aned yn y Deyrnas Unedig ac sy'n dal i fyw yma. Ymddeolodd Yvonne a'i gŵr yn 2008 a mynd i fyw yn Nigeria. Mae wedi ymweld â'r Deyrnas Unedig yn aml i weld ei theulu.

Pan fu ei gŵr farw, roedd Yvonne am ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig i fyw gyda'i merch.

Helpodd y Cynllun Windrush Yvonne i gael 'fisa preswylydd sy'n dychwelyd' oherwydd ei chysylltiadau cryfion â'r Deyrnas Unedig. A hithau yn ôl yn y Deyrnas Unedig rhoddwyd dogfen arall iddi i brofi ei bod wedi 'ymsefydlu' yn y Deyrnas Unedig.

## Cysylltwch â'r Tîm Help Windrush i gael rhagor o wybodaeth

Bydd popeth y byddwch yn ei ddweud wrthym yn cael ei drin yn sensitif ac ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo ymlaen i'r Adran Orfodi Mewnfudo.

**Ffoniwch y llinell gymorth am ddim: 0800 678 1925**

**Ewch i: GOV.UK/WindrushHelpTeam**

**Cysylltwch â'r Tîm Help Windrush i gael rhagor o wybodaeth**

**Ffoniwch y llinell gymorth am ddim: 0800 678 1925**

**Ewch i: GOV.UK/WindrushHelpTeam**

Bydd popeth y byddwch yn ei ddweud wrthym yn cael ei drin yn sensitif ac ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo ymlaen i'r Adran Orfodi Mewnfudo.